**Rebecca Evans AC**
y Gweinidog Tai ac Adfywio
Llywodraeth Cymru

19 Medi 2018

Annwyl Rebecca

**Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru)**

Diolch am ddod i'n cyfarfod ar 19 Medi i roi tystiolaeth mewn cysylltiad â'n gwaith craffu ar y Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru).

Yn y cyfarfod, gwnaethoch gytuno i ddarparu rhagor o fanylion am y canlynol:

- Trosolwg o'r hyn a fydd yn cael ei gynnwys yn y canllawiau i denantiaid a landlordiaid cyn i'r Bil ddod i rym. Rydych wedi ymrwymo i ddarparu'r trosolwg hwn cyn gwaith craffu Cyfnod 2 ar y Bil.
- Nodyn ynghylch pam mae angen y darpariaethau sy'n ymwneud â'r Hawl i Rentu sydd yn y Bil ar hyn o bryd.
- Rhagor o wybodaeth am sut y bydd y Ddeddf yn cael ei gwerthuso pan ddaw i rym.
- Eglurhad ynghylch pam nad yw'r Bil yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol helpu deiliaid contract wrth adennill taliadau gwaharddedig.

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ymateb erbyn **diwedd dydd Iau 27 Medi** mewn pryd i lywio cam nesaf ein gwaith craffu ar y Bil.

Yn gywir

John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.